Cynllun Corfforaethol Urdd Gobaith Cymru

Cynllun Datblygu am y cyfnod 2005-2008

Cafodd y cynllun hwn ei gymeradwyo gan Gyngor Urdd Gobaith Cymru ym mis Tachwedd 2004.

Mae'r cynllun yn gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Urdd ynglŷn â sut mae'n bwriadu gweithredu yn y cyfnod 2005-2008. Mae'n dweud yn gryno beth yw'r Urdd, sut a pham ei fod yn gweithredu, a beth mae'n ceisio ei gyflawni. Mae'n cynnwys targedau ar gyfer mesur cynnydd dros y cyfnod.

Bydd y Cynllun yn sail i gynllun gweithredu ac mae'n cynnwys sylw i ddulliau monitro a mesur perfformiad sydd yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein targedau.

Wrth ddatblygu'r Cynllun, rhoddwyd sylw i'r pethau canlynol:

- Barn aelodau'r Urdd
- Barn gwirfoddolwyr yr Urdd
- Barn staff yr Urdd
- Ystadegau am blant a phobl ifanc Cymru

Rhoddwyd sylw i'r dogfennau canlynol:

- 'Iaith Pawb', Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
- 'Cymru:Gwlad Well' – agenda strategol Llywodraeth y Cynulliad
- 'Ymestyn Hawliau', Adroddiad gan Uned Bolisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru.
- 'Datganiad y Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar Gyfer Cymru', Cyngor Ieuenctid Cymru
- Arolwg Bwrdd yr Iaith Gymraeg o Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Gwaith Maes yr Urdd, Mawrth 2004.
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Urdd Gobaith Cymru yn gwmni cyfyngedig drwy warant (rhif 263310) ac yn elusen gofrestredig (rhif 524481). Cafodd ei sefydlu yn 1922, ac mae wedi datblygu yn barhaus ers hynny.

Nod Urdd Gobaith Cymru

Nod Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol. Cyflawnir hyn trwy'r ddelfryd o wasanaeth i Gymru, Cyd-ddyn a Christ.

Cred yr Urdd fod ganddo rôl glir i gynnig gweithgareddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc, sydd yn ymateb i'w hanghenion, ac sydd yn eu hargyhoeddi fod byw bywyd Cymraeg yng Nghymru yn gyffrous a heriol.

Mae'n awyddus i sicrhau ei fod yn cynnig cymaint o gyfleoedd â phosibl i'n pobl ifanc a rhai yn eu harddegau i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd hamdden a chymdeithasol bob dydd, fel sy'n cael ei osod fel un o amcanion 'Iaith Pawb'.

Mae'r Urdd yn dilyn Datganiad y Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru, ac mae'n awyddus i sicrhau hunan-barch a hunan-werth unigolion. Mae'n derbyn arwyddocâd canolog iaith i hunaniaeth bersonol a chenedlaethol; fod hawl gan siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd; fod dyletswydd ar unigolion i ddatblygu eu potensial corfforol, meddyliol ac ysbrydol; ei bod yn bwysig parchu eraill heb ystyried iaith, hil, crefydd, rhyw neu anabledd; fod cyfrifoldeb moesol gan unigolion at yr hunan, eraill a'r amgylchedd a bod gwerth mewn gonestrwydd, diffuantrwydd ac annibyniaeth barn.

Mae'r Urdd hefyd yn cydnabod hawliau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i fod yn aelod o'r Urdd, i gymryd rhan, i dderbyn gwybodaeth ac i roi barn. Mae hyn yn unol â chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn. Mae'n glir o'r farn fod hawl gan blant a phobl ifanc i dderbyn gwasanaeth ac i ymwneud â gweithgareddau mewn safleoedd diogel, o dan arweiniad staff a gwirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi'n addas. Mae'r hawliau yma yn cael eu crisialu yn y ddogfen 'Ymestyn Hawliau' fel a ganlyn:

Mae hawl gan bob person ifanc yng Nghymru i gael:

"Cyfleoedd i gyflawni, ym mha faes y dymuna, gan dderbyn achrediad a chlod am ei lwyddiannau."

"Cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch."

"Profiadau chwaraeon, celf ac awyr agored ar gyfer datblygu talentau ac ehangu gorwelion, gan gynnwys persbectif rhyngwladol."

Cyfranna holl waith yr Urdd at gyflawni'r hawliau hyn.

Cyd-destun

Corff cenedlaethol yw Urdd Gobaith Cymru sy'n darparu gwasanaeth a gweithgareddau i'w aelodau sydd rhwng 8 a 25 oed. Mae'n gweithredu trwy 17 o ranbarthau, sydd yn eu tro yn perthyn i 3 talaith, a'r cyfan yn rhan o gyfundrefn genedlaethol. Allwedd llwyddiant yr Urdd yw'r bartneriaeth rhwng aelodau'r Urdd, gwirfoddolwyr yr Urdd a staff yr Urdd. Mae gan yr Urdd dros 51,000 o aelodau, 183 aelod o staff ac amcangyfrifir fod hyd at 10,000 o wirfoddolwyr yn cyfrannu tuag at weithgareddau'r Urdd yn flynyddol.

Mae'r Urdd wedi ei rannu yn weinyddol i 7 o adrannau. Mae 9 yn gweithio i Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau, 49 i Adran y Maes, 10 i'r Adran Gwasanaethau Cenedlaethol, 4 i'r Adran Gyfathrebu a112 yng ngwersylloedd Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd. Mae staff yr Urdd yn gweithio mewn 9 o safleoedd yng Nghymru.

Mae gan yr Urdd drosiant o bron i £5m. Mae ei ffynonellau incwm yn cynnwys incwm o'r gwersylloedd, grantiau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Ieuenctid Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a'r Awdurdodau Unedol, tâl aelodaeth, nawdd ac incwm drwy roddion a chymynroddion.

Mae'r hyn y cynigia'r Urdd i'w aelodau yn cynnwys gweithgareddau ar lefel leol, taleithiol a chenedlaethol. Mae'r gweithgareddau hynny'n cynnwys y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, mewn eisteddfodau, mewn gweithgareddau chwaraeon ac mewn digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol. Cânt y cyfle i fynychu gwersylloedd preswyl, ac i fynychu teithiau eraill achlysurol.

Mae dros 90,000 o ddisgyblion ysgol yng Nghymru yn derbyn o leiaf rhan o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 35,000 ohonynt yn aelodau o'r Urdd, 22,000 yn yr oedran cynradd a 13,000 yn yr oedran hŷn. Mae gan yr Urdd 16,000 o aelodau sy'n dweud eu bod yn ddysgwyr (11,000 yn yr oedran cynradd a 5,000 yn yr oedran hŷn). Mae dros 30% o aelodau'r Urdd yn dweud eu bod yn ddysgwyr.

Mae potensial i'r Urdd ehangu ar ei sail aelodaeth, ehangu ar y niferoedd sy'n mynychu'n gwersylloedd, ac i ehangu ei weithgareddau. Fodd bynnag, byddai'n anodd ehangu heb fuddosddiad, gan fod angen sicrhau lefel sylfaenol o wasanaeth i bob aelod. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut y mae'n gobeithio blaenoriaethu a datblygu ei weithgareddau dros y tair blynedd nesaf.

Blaenoriaethau'r Urdd am y cyfnod 2005-2008

Gosodir y canlynol fel blaenoriaethau am y cyfnod 2005-2008.

- Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

  Rhoi blaenoriaeth i ddatblygu gwaith a chynyddu aelodaeth yn yr oedran 11-25, gan ganolbwyntio ar yr oed 12-15 am y tair blynedd nesaf. Nodir yr oedran hwn fel blaenoriaeth oherwydd bod cynllun Urddaholics eisoes yn ei le ar gyfer yr oedran16 i 25. Yr oedran 12-15 yw'r oed lle gwelir gostyngiad yn nifer aelodaeth, a lle mae prinder cyfleoedd cymdeithasol eraill i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg. Ar yr un pryd, rydym yn sylweddoli fod gwasanaethu aelodau yn yr oed 8 –11 yn hanfodol.

  Datblygu hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ar sut i newid arfer defnydd iaith wrth ymwneud â gweithgaredd, ac ar ddefnyddio cywair iaith addas.

  Ystyried y cydbwysedd rhwng darparu i siaradwyr Cymraeg (sydd efallai ddim yn dewis defnyddio eu Cymraeg), a dysgwyr y Gymraeg.

- Cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol.

  Blaenoriaethu gweithgaredd y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys gweithgareddau amser gwyliau.

  Rhoi ystyriaeth i'r cydbwysedd ym mhob rhanbarth - rhwng cefnogi'r gyfundrefn addysgol, a datblygu gweithgaredd sy'n ategu'r gyfundrefn honno.

  Cydweithio â'r gyfundrefn addysgol er mwyn cyfathrebu ag aelodau a darpar aelodau, a datblygu dulliau cyfathrebu uniongyrchol ag aelodau. Diffinio cynulleidfa darged yr Urdd, a datblygu cynlluniau marchnata priodol.

- Cynyddu cyfranogi gan bobl ifanc.

  Rhoi sylw gan bob adran i gynnwys pobl ifanc wrth ddatblygu prosiectau ac wrth eu cynnwys yn strwythurau'r Urdd

  Datblygu arweinwyr ifanc, a datblygu hyfforddiant priodol i bobl ifanc.

  Canolbwyntio ar hawliau aelodau i ymuno (beth bynnag fo'u cred, hil, iaith, gallu neu ryw), i gymryd rhan a derbyn gwasanaeth a gwybodaeth, i roi barn a chael eu parchu a datblygu, mewn amgylchfyd diogel.

  Parhau i roi blaenoriaeth i gynyddu cyfranogiad gan aelodau o ardaloedd difreintiedig yng Nghymru.

ADRAN Y MAES

Cefndir

Adran gwaith maes yr Urdd sy'n gyfrifol am ddarparu ystod eang o weithgareddau i aelodau'r Urdd ar draws Cymru. Mae gan yr Urdd dim o 36 llawn amser, ac 13 rhan amser o staff rhanbarthol sy'n datblygu, cynnal a gweinyddu rhaglen o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon, ymweliadau â gwersylloedd, eisteddfodau, gwibdeithiau, teithiau cyfnewid, gweithgareddau cymunedol mewn adrannau ac aelwydydd. Maent yn trefnu dros 100 o Eisteddfodau Cylch, a dros 40 o Eisteddfodau Rhanbarth. Trefnir cystadlaethau chwaraeon rhanbarthol a thaleithiol.

Mae gan yr Urdd rwydwaith o 995 o ganghennau. Mae 75% yn ganghennau ysgolion a 25% yn ganghennau sy'n gweithredu yn gymunedol. Mae 33,000 (65%) o aelodau'r Urdd o dan 11 oed, 15,000 (29%) rhwng 12 a 16, a 3,000 (6%) rhwng 16 a 25.

Mae'r Urdd yn cynnig gweithgareddau arbennig i'r oedran 16-25, o dan yr enw 'Urddaholic'. Mae dau swyddog yn gweithredu'n benodol gyda'r oedran hwn. Ymwneir hefyd â datblygu prosiectau dyngarol, sy'n ymwneud â'r gwaith o ddatblygu dinasyddion.

Gweithredir Strategaeth Chwaraeon gan Swyddog Chwaraeon Cenedlaethol a thîm o 5 o swyddogion mewn ardaloedd penodol. Maent yn sefydlu clybiau chwaraeon lleol sydd yn dysgu sgiliau newydd i blant a phobl ifanc, ac yn cynnig cyfle iddynt ddilyn maes diddordeb drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Urdd hefyd yn cydweithio gyda nifer o asiantaethau mewn llefydd gwahanol yng Nghymru ar brosiectau sydd yn cyflogi swyddogion ieuenctid i gyflawni gwaith ieuenctid.

Mae'r targedau canlynol yn berthnasol i holl waith y maes.

Blaenoriaethau a Thargedau

<u>Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg</u>

1. Datblygu hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ar gyflwyno iaith a newid iaith gweithgaredd, a defnyddio cywair iaith addas.

   Targed: Datblygu a chynnal yr hyfforddiant.

   Cynyddu effaith gweithgareddau ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. Datblygu dull o fesur a chofnodi hyn. Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni hyn.

2. Cynyddu'r ddarpariaeth i'r oed 12 – 15 oed.

Targed: Cynyddu nifer yr aelodau yn yr oedran hwn 10% dros gyfnod y cynllun. Cadw cofnod o'r nifer o weithgareddau a gynigir yn yr oedran hwn.

3. Cynnig darpariaeth i'r oed 8-11.

Targed: Darparu ystod o weithgareddau addas i'r oedran, gan ganolbwyntio ar weithgaredd y tu allan i oriau ysgol. Cadw cofnod o'r gweithgaredd sy'n digwydd, a faint o aelodau sy'n cymryd rhan.

4. Parhau â'r ddarpariaeth i'r oed 16 – 25.

Targed: Creu a gweithredu cynllun cydlynus ar gyfer yr oedran hwn ar draws Cymru, gan gynyddu aelodaeth o 10%, a sicrhau fod 1,000 yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn flynyddol.

Cydweithio â phartneriaid eraill i gynnal, a sefydlu cynlluniau ieuenctid sy'n cynnig gweithgareddau cymdeithasol a chyfloedd hyfforddi i'r oedran hwn. Sicrhau fod cydweithio rhwng swyddogion cynlluniau ieuenctid a swyddogion yr Urdd.

5. Datblygu gwaith Chwaraeon yr Urdd.

Targed: Sicrhau fod Strategaeth Chwaraeon yr Urdd yn cael ei chyflawni, a bod swyddogion prosiect chwaraeon yn dilyn cynlluniau gwaith cydlynus. Cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn wythnosol.

Sicrhau'r adnoddau cywir i gyflawni'r weledigaeth a geir yn Strategaeth Chwaraeon yr Urdd.

Cynyddu'r nifer sy'n ymwneud â chwaraeon yn yr oedran 12-15 o 10%.

Parhau i drefnu cystadlaethau chwaraeon ar lefel cylch, rhanbarth a thaleithiol. Mesur y nifer sy'n cymryd rhan.

6. Cynnal Eisteddfodau Cylch a rhanbarth.

Targed: Cynnal 110 Eisteddfod Cylch a 40 Eisteddfod Rhanbarth ar draws Cymru. Cofnodi faint o aelodau sy'n cymryd rhan.

<u>Cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol</u>

7. Cynnal mwy o weithgaredd cymunedol y tu allan i oriau ysgol, ac yn ystod cyfnodau gwyliau, gan roi sylw i'r Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

Targed: Cynnig cefnogaeth i adrannau cymunedol presennol, cynnal awdit ohonynt a'u gweithgareddau.
Pob rhanbarth i sefydlu clybiau a gweithgareddau i'r oedran 12-15 newydd ym mhob blwyddyn. Sefydlu un clwb ychwanegol ym mhob rhanbarth y flwyddyn.

Targed: Pob rhanbarth i gynnig gweithgaredd gwyliau ysgol. Lleiafswm o 10 diwrnod y flwyddyn.

Targed: Cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu gwersylloedd yr Urdd. Targed o gynnydd o 10% dros gyfnod y cynllun. Targed o gynnydd o 15% yn niferoedd y rheiny sy'n mynychu Gwersyll Haf dros gyfnod y cynllun.

Targed: Marchnata gwasanaethau'r Urdd, a'r gweithgareddau.

8. Datblygu cynlluniau ieuenctid lleol ar y cyd â chyrff eraill, gan roi sylw i'r agenda polisi yn lleol.

Targed: Datblygu partneriaethau ym mhob rhanbarth, ac ymwneud â'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ym mhob awdurdod unedol.

Cydweithio â Chynlluniau Gweithredu Iaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg, lle'n berthnasol.

<u>Cynyddu cyfranogi gan bobl ifanc</u>

9. Hyfforddi arweinwyr newydd ifanc a rhoi sylw i roi cefnogaeth i wirfoddolwyr.

Targed: Datblygu strategaeth recriwtio a hyfforddi arweinyddion, gan roi ystyriaeth i achredu'r hyfforddiant. Hyfforddi 150 yn ystod cyfnod y cynllun.

10. Sicrhau cyfranogi gan blant a phobl ifanc o ardaloedd difreintiedig.

Targed: Cynyddu cyfranogaeth gan blant a phobl ifanc o ardaloedd difreintiedig fel sy'n cael ei diffinio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Anelu at gynnydd o 10% dros gyfnod y Cynllun.

11. Sicrhau fod yr holl weithgareddau a gynigir gan yr Urdd yn rhai diogel.

Targed: Datblygu a chyflwyno hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ar asesu risg, diogelwch plant. Hyfforddi 100% o staff yn

ystod cyfnod y cynllun. Creu a dechrau cyflwyno cynllun hyfforddi gwirfoddolwyr.

12. Parhau â chynlluniau dyngarol yr Urdd.

    Targed: Cynllunio prosiectau sy'n arwain at well dealltwriaeth gan blant a phobl ifanc o'r byd o'u cwmpas, a chynnig cyfleoedd gwirfoddoli dyngarol yn eu cymunedau.

    Llunio cynllun erbyn 2005, gyda thargedau penodol o ran niferoedd aelodau sy'n cymryd rhan.

13. Datblygu cysylltiadau â gwledydd eraill, yn enwedig lle siaredir ieithoedd lleiafrifol.

    Targed: Gweithredu cynllun ar y cyd â mudiad ieuenctid yn Iwerddon, a fydd yn datblygu arweinwyr ifanc o'r ddwy wlad, ac yn gwella dealltwriaeth rhyngddynt, a sicrhau fod 160 y flwyddyn yn elwa o'r profiad.

ADRAN YR EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU

Cefndir

Nod Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau yw hyrwyddo'r Celfyddydau oddi fewn i wasanaethau Urdd Gobaith Cymru i'w aelodau a thrwy hynny gyfrannu at fywyd diwylliannol Cymru. Penllanw gwaith yr adran yw trefnu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn flynyddol. Mae 7 aelod o staff llawn amser gan yr adran a 2 aelod rhan amser.

Trefnir 110 o Eisteddfodau cylch a 40 o Eisteddfodau Sir o dan oruchwyliaeth Adran y Maes yn flynyddol. Mae'r cystadleuthau yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc ddatblygu ac arddangos eu doniau mewn meysydd gan gynnwys Celf a Dylunio Technoleg, Dawns, Cerddoriaeth Glasurol, Ysgrifennu Sgriptiau, Dawnsio Gwerin, Cerddoriaeth Roc, Llefaru, Canu ac Actio.

Blaenoriaethau a Thargedau

<u>Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg</u>

1. Datblygu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd fel gŵyl ddiwylliannol lwyddiannus lle mae pawb yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau trefniadau perthnasol, delweddau positif a blaengar ac atyniadau newydd.

   Targed: Cynnal arolygon i asesu dylanwad yr Eisteddfod ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at y Gymraeg.

   Sicrhau fod 15,000 yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

   Annog 400 o bobl i wirfoddoli gyda threfniadau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

2. Sicrhau cyllid craidd digonol i gynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

   Targed: Cynnal yr Eisteddfod fel a ganlyn:

   2005 Canolfan Mileniwm Cymru
   2006 Sir Ddinbych
   2007 Sir Gaerfyrddin

3. Marchnata Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd er mwyn denu mwy o ymwelwyr.

   Targed: Cynyddu'r nifer o ymwelwyr o 100,000 i 110,000

<u>Cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol</u>

4. Gwneud ceisiadau am gyllid i ddatblygu gweithgareddau celfyddydol o amgylch y flwyddyn, gyda'r nod o sicrhau fod yr Eisteddfod yn dod yn benllanw profiadau a digwyddiadau, ac yn symbyliad i weithgareddau celfyddydol parhaol.

   Targed: Sicrhau fod 1 digwyddiad celfyddydol ychwanegol y flwyddyn yn cael ei drefnu ar lefel genedlaethol, neu yn ardal yr Eisteddfod, a bod 200 o aelodau yn cael profiadau celfyddydol ychwanegol.

5. Sicrhau fod digwyddiadau cymunedol yn digwydd cyn ac ar ôl dyfodiad yr Eisteddfod i ardal.

   Targed: Sicrhau fod 1 aelwyd yn cael ei sefydlu o ganlyniad i'r Eisteddfod.

6. Cydweithio ag Adran y Maes i sicrhau cynnydd yn nifer y cyfleoedd celfyddydol anghystadleuol y gall yr Urdd ei gynnig mewn rhanbarthau trwy Gymru, gan ganolbwyntio ar glybiau wythnosol a digwyddiadau penodol.

   Targed: Datblygu'r gweithgareddau celfyddydol mewn 4 rhanbarth yn flynyddol.

<u>Cynyddu cyfranogi gan bobl ifanc</u>

7. Datblygu'r profiadau celfyddydol ar faes yr Eisteddfod, ac oddi arno, gan gynnwys dosbarthiadau meistr, gweithdai amrywiol a'r cyfle i brofi celfyddydau newydd.

   Targed: 100 y flwyddyn i elwa o'r profiadau celfyddydol ychwanegol yn yr Eisteddfod.

   Targed: Dod o hyd i gyllid digonol i sefydlu Cwrs Theatr Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru ar gyfer yr oedran 14-25.

   Targed: Datblygu'r hyfforddiant dilynol i bobl sy'n arddangos potensial drwy gystadlaethau Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru. Sicrhau fod 50 y flwyddyn yn elwa o'r profiad.

   Targed: Dod o hyd i gyllid ychwanegol er mwyn datblygu'r hyfforddiant y gallwn ei gynnig i hyfforddwyr er mwyn sicrhau gwarchod traddodiadau cynhenid, yn ogystal â datblygu diddordeb mewn celfyddydau newydd.

Y GWERSYLLOEDD

Cefndir

Nod gwersylloedd yr Urdd yw yw creu canolfannau sy'n cynnig cyfleoedd i blant a ieuenctid ac oedolion breswylio, addysgu a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymraeg a Chymreig, diogel a chroesawgar.

Mae'r Urdd yn cynnig profiadau preswyl drwy ei wersylloedd antur awyr agored yn Llangrannog a Glan-llyn, a'i wersyll celfyddydol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, sydd hefyd yn cynnig profiad dinesig . Mae gan yr Urdd ganolfan ym Mhentref Ifan hefyd sydd yn gallu lletya 18, ac mae'n adnodd sydd yn cael ei rheoli o Langrannog, ar y cyd â phwyllgor lleol.

Yn y gwersylloedd mae plant a phobl ifanc yn cael y profiad o fod yn annibynnol oddi cartref, efallai am y tro cyntaf. Maent yn cael y profiad o fod mewn awyrgylch Gymraeg a Chymreig, yn cael profi merlota, sgïo, hwylio, canŵio, rafftio dŵr gwyn, cerdded afonydd, nofio, gyrru beiciau modur a mwy.

Mae'r rhan fwyaf yn dod i'r gwersylloedd dan ofal eu hysgolion, ac eraill yn dod o dan ofal staff yr Urdd.

Mae'r gwersylloedd yn cyfrannu incwm at weithgaredd Urdd Gobaith Cymru.

Blaenoriaethau a Thargedau

Gwersyll yr Urdd Llangrannog

Bu buddsoddiad gwerth £5m yn adeiladau a chyfleusterau Llangrannog dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys datblygu bloc cysgu newydd, canolfan chwaraeon ac arddangosfeydd treftadaeth (dibynnol ar grant) newydd. Mae 18,500 o bobl y flwyddyn yn mynychu'r gwersyll yn Llangrannog. Mae 450 o welyau yno a 31 o staff llawn amser a 35 o staff rhan amser yn cael eu cyflogi. Yn unol â Chynllun Busnes Llangrannog, yn sgil y buddsoddiad a fu, anelir i gynyddu'r nifer o ymwelwyr i 21,400 o fewn tair blynedd i gwblhau'r buddsoddiad.

Gwersyll yr Urdd Glan-llyn

Bu buddsoddiad gwerth £900,000 mewn bloc cysgu a swyddfeydd newydd yng Nglan-llyn. Mynychodd 12,200 o bobl y gwersyll yn ystod 2003-04. Mae 230 o welyau yno a 21 o staff llawn amser, a 24 o staff rhan amser yn cael eu cyflogi. Anelir at sicrhau fod cynnydd o 5% o ymwelwyr yn aros yn y gwersyll yn flynyddol, sef cynnydd o dros 16% yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd cyfle os gwneir hyn i ddatblygu atyniadau newydd yno.

Gwersyll yr Urdd Caerdydd

Agorir y gwersyll ym mis Tachwedd 2004. Anelir at gyflogi 5 aelod o staff llawn amser yno erbyn Ebrill 2005, ac i ddenu 6,000 o ymwelwyr yn ystod y

flwyddyn gyntaf. Mae 150 o welyau yno. Bydd angen datblygu partneriaethau a chyrsiau addas i'r gwersyll. Bydd angen marchnata'r gwersyll yn effeithiol er mwyn sicrhau ymwelwyr. Gobeithir y bydd y ganolfan yn gatalydd i gyrsiau celfyddydol ac yn gyrchfan cymdeithasol a chelfyddydol i'r ardal.

Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

1. Cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu Gwersyll Haf Llangrannog a Glan-llyn.

   Targed: Llangrannog: Cynyddu 15% yn ystod cyfnod y cynllun.
   Glan-llyn: Cynyddu 15% yn ystod cyfnod y cynllun.

2. Trefnu cyrsiau celfyddydol yng ngwersyll Caerdydd

   Targed: Trefnu 5 cwrs celfyddydol y flwyddyn

3. Sicrhau fod pobl ifanc yn awyddus i ddod i'r Gwersylloedd i gael profiadau Cymraeg a Chymreig drwy ddatblygu gweithgareddau newydd amrywiol a fydd o gymorth i ddenu cwsmeriaid newydd, cadw cwsmeriaid presennol ac yn adnodd ar gyfer pobl leol a thwristiaid.

   Targed: Glan-llyn:
   Sicrhau cwrs rhaffau uchel

   Ymchwilio a sicrhau cyllid ac adnoddau digonol ar gyfer datblygu gweithgareddau eraill.

   Targed: Llangrannog:

   Sicrhau defnydd llawn o'r Ganolfan Chwaraeon newydd.

   Parhau i adolygu a datblygu'r ddarpariaeth yn gyson, gan ddefnyddio'r ffurflenni arfarnu.

4. Mesur effaith ymweliad â'r gwersyll ar yr agwedd at y Gymraeg, ac at ddefnydd o'r Gymraeg.

   Targed: Glan-llyn, Llangrannog a Chaerdydd

   Gweld cynnydd yn y nifer sy'n nodi eu parodrwydd i siarad Cymraeg a'u ffrindiau ar ôl mynychu'r gwersylloedd

Cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol

5. Cynyddu'r niferoedd sy'n dod i'r gwersylloedd o dan arweiniad swyddogion datblygu'r Urdd.

Targed: Gweld cynnydd o 10% yn ystod cyfnod y cynllun. Sicrhau cynnydd o 15% yn niferoedd Gwersyll Haf yn ystod cyfnod y cynllun.

6. Datblygu a chynyddu defnydd cymunedol o adnoddau'r gwersylloedd i'r trigolion lleol ac aelodau'r Urdd.

Targed: Glan-llyn:
Sicrhau defnydd allanol o'r ddarlithfa ar gyfer gweithgareddau amrywiol – 12 gweithgaredd allanol erbyn 2008

Llangrannog:
Sicrhau defnydd allanol o'r Ganolfan Chwaraeon yn unol â strategaeth a gytunir gyda Chyngor Chwaraeon Cymru.

Caerdydd:
Sicrhau defnydd allanol gan grwpiau cymdeithasol o'r adnoddau. Anelu at gael 2 ddigwyddiad rheolaidd yr wythnos.

<u>Cynyddu cyfranogi gan bobl ifanc</u>

7. Cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu o ardaloedd difreintiedig.

Targed: Sicrhau cynnydd o 10% yng ngwersyll Llangrannog a Glan-llyn, a sicrhau fod 10% o'r rheiny sy'n mynychu gwersyll Caerdydd yn dod o ardaloedd difreintiedig.

8. Casglu barn plant a phobl ifanc ar ddarpariaeth y gwersylloedd.

Targed: Cymryd eu barn i ystyriaeth wrth ddatblygu unrhyw ddatblygiad newydd.

Targed: Sicrhau fod 80% yn hapus â'r profiadau a gânt yn y gwersyll (sgôr 4-6 ar y ffurflenni arfarnu).

9. Hyfforddi pobl ifanc fel swyddogion yng ngwersyll Glan-llyn

Targed: Sicrhau fod dros 100 yn derbyn hyfforddiant yn flynyddol.

Sicrhau fod y cynllun Hyfforddai yn parhau gan anelu at hyfforddi tri yn flynyddol.

1. Cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu'r gwersylloedd.

Targed: Llangrannog: Cynyddu o 18,500 i 21,400 (5% y flwyddyn)

Glan-llyn:	Cynyddu o 12,200 i 14,500 erbyn diwedd cyfnod y cynllun (dros 5% y flwyddyn)
Caerdydd:	Cynyddu o 6,000 yn y flwyddyn gyntaf i 8,000 erbyn diwedd cyfnod y cynllun (10% y flwyddyn)

11. Datblygu cyfleusterau i'r anabl yn y Gwersylloedd

Targed: Glan-llyn:
Sicrhau fod mynediad hwylus i bob rhan o'r Gwersyll, e.e. i'r caban bwyta, pwll nofio, a sicrhau fod cyfleusterau ac offer pwrpasol ar gael.

Llangrannog:
Parhau i sicrhau fod y gwersyll yn addas i bawb.

ADRAN GYFATHREBU

Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus

Cefndir

Mae'r gwaith yn ymwneud â marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, gwasanaethau i aelodau, gan gynnwys gwasanaeth dosbarthu gwybodaeth gan ddefnyddio dulliau print, gwefan yr Urdd a dulliau eraill o gyfathrebu. Yn ogystal, cynhyrchir 3 chylchgrawn misol yr Urdd gan yr adran ac adolygiad blynyddol yr Urdd. Mae 4 yn gweithio yn yr adran. Gwneir y gwaith gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r Urdd a'i weithgareddau ymysg y cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol, a gwneud yr Urdd yn ddewis amlwg i blant a phobl ifanc.

Blaenoriaethau a Thargedau

Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

1. Gwella delwedd y Gymraeg fel bod mwy o blant a phobl ifanc yn awyddus i'w ddefnyddio fel iaith gymdeithasol.

   Targed: Datblygu ymgyrchoedd marchnata addas i blant a phobl ifanc i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i wneud hynny drwy ymuno yng ngweithgareddau'r Urdd.

   Targed: Gweithredu cynllun marchnata blynyddol, a'i gydlynu ar draws holl adrannau'r Urdd.

Cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol

2. Rhoi gwybodaeth am weithgareddau i blant a phobl ifanc.

   Targed: Trefnu postiadau cyson o ddeunyddiau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys postiadau uniongyrchol, a datblygu dulliau newydd o gyfathrebu, gan gynnwys defnyddio negeseuon tecst.

3. Codi proffil yr Urdd a'i weithgareddau yn y wasg a'r cyfryngau.

   Targed: Sicrhau fod proffil uchel gan yr Urdd drwy'r flwyddyn, rhyddhau 24 datganiad yn flynyddol. Sicrhau 12 ymddangosiad ar raglenni teledu, a 24 eitem radio.

   Targed: Sicrhau fod presenoldeb atyniadol gan yr Urdd mewn sioeau a digwyddiadau ar draws Cymru.

Cynyddu cyfranogi gan bobl ifanc

4. Drwy ddulliau marchnata, rhoi cefnogaeth i adrannau eraill sicrhau fod aelodaeth yr Urdd yn cael ei gynnal.

   Targed: Cynhyrchu deunyddiau marchnata addas, a chynlluniau addas i hyrwyddo aelodaeth.

5. Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael gwybodaeth am weithgareddau.

   Targed: Sicrhau fod gwefan yr Urdd yn denu 280,000 o ymweliadau y flwyddyn.

Cylchgronau

Cefndir

Cyhoeddi cylchgronau atyniadol i ddysgwyr y Gymraeg sef Bore da (7-11 oed), dysgwyr y Gymraeg sef Iaw! (11+), Cymry Cymraeg sef Cip (7-11), sydd yn annog darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Cyhoeddir 10 rhifyn y flwyddyn o'r cylchgronau, a gall plant a phobl ifanc eu harchebu yn uniongyrchol neu drwy eu hysgolion. Mae gwerthiant misol o 9668 gan y cylchgronau, a darlleniad o bron i 30,000

Blaenoriaethau a Thargedau

Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

6. Defnyddio'r cylchgronau i drafod materion, a sbarduno trafodaeth yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg.

   Targed: Cyhoeddi 3 erthygl y flwyddyn, a mesur yr ymateb.

Cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol

7. Rhoi sylw ar ddigwyddiadau cymunedol yn y cylchgronau, yn enwedig iaw!

   Targed: Cyhoeddi 3 erthygl y flwyddyn, a mesur yr ymateb.

Cynyddu cyfranogi gan bobl ifanc

8. Sicrhau casglu barn plant a phobl ifanc ar gynnwys y cylchgronau.

   Targed: Cynyddu'r ymateb gan blant a phobl ifanc i'r cylchgronau, drwy'r we, drwy lythyr neu neges destun. Cynnal 5 gweithdy i'r perwyl hwn yn flynyddol.

9. Denu mwy o blant a phobl ifanc i brynu a darllen y cylchgronau.

   Targed: Cynyddu'r gwerthiant o 9668 i 10,250

ADRAN GWASANAETHAU CENEDLAETHOL

Yr adran gwasanaethau cenedlaethol sy'n rhoi cefnogaeth weithredol i'r holl adrannau eraill. Cwmpasir y canlynol gan yr adran: swyddfa'r Prif Weithredwr, rheolaeth ariannol a phersonél (yn cynnwys hyfforddiant), cefnogaeth technoleg gwybodaeth, cynnal gwefan yr Urdd, cyfathrebu a dosbarthu gwybodaeth, nawdd a datblygu.

Mae 10 yn gweithio i'r adran gwasanaethau canolog, a hynny ar draws nifer o swyddfeydd. Mae'r adran yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth effeithiol a chywir o adnoddau Urdd Gobaith Cymru.

<u>Gwasanaethau Canolog</u>

1. Cynnal gweithdrefnau rheoli'r mudiad.

   Targed: Sicrhau fod cyfarfodydd o wirfoddolwyr yr Urdd yn digwydd yn rheolaidd.

2. Datblygu'r berthynas gyda chyllidwyr a sicrhau fod yr Urdd yn flaenllaw wrth gyfrannu at ddatblygiadau polisi.

   Targed: Sicrhau fod adnoddau digonol gan yr Urdd i weithredu.

3. Sicrhau fod gweithdrefnau ariannol Urdd Gobaith Cymru yn gweithredu'n effeithiol.

   Targed: Paratoi amcangyfrifon a chyfrifon mewnol misol.
   Cyflwyno cyfrifon wedi eu harchwilio yn flynyddol

4. Sicrhau fod gweithdrefnau personél Urdd Gobaith Cymru yn effeithiol, gan gynnwys datblygu hyfforddiant priodol.

   Targed: Sicrhau bod penodiadau, gwerthuso, hyfforddiant a datblygu staff yn dilyn amserlen benodol.

5. Datblygu gweithdrefnau hyfforddiant yr Urdd i staff a gwirfoddolwyr.

   Targed: Sicrhau fod staff yn derbyn hyfforddiant priodol i'w swyddi, a datblygu hyfforddiant i wirfoddolwyr.

6. Sicrhau fod gweithdrefnau iechyd a diogelwch, diogelu plant ac asesu risg, yn cael eu gweithredu.

   Targed: Sicrhau fod 100% o staff wedi eu gwirio trwy drefn y Swyddfa Cofnodion Troseddol a bod rhaglen ar gyfer gwirio gwirfoddolwyr yn ei le.

   Adolygu asesiadau risg yn flynyddol.

7. Sicrhau gofalaeth o eiddo a buddsoddiadau'r Urdd. Ni ragwelir y bydd sefyllfa ariannol yr Urdd yn caniatau buddsoddiadau cyfalafol pellach yn ystod cyfnod hwn.

   Targed: Sicrhau fod y twf o ran ymwelwyr disgwyledig yn digwydd o ganlyniad i fuddsoddi yn y Gwersylloedd.

   Sicrhau fod Gwersyll Caerdydd yn cael ei sefydlu'n llwyddiannus.

8. Sicrhau fod adnoddau, swyddfeydd ac offer technoleg gwybodaeth priodol gan staff.

   Targed: Parhau i ddatblygu'n cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth, cyn belled â bod cyllid yn caniatau.

8. Cynyddu incwm y mudiad.

   Targed: Datblygu cynllun codi incwm newydd.

   Sicrhau cynnydd mewn nawdd oddi wrth gwmniau masnachol. Targed o £200,000 y flwyddyn tuag at gynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

   Sicrhau cynnydd mewn grantiau at waith y maes, yr eisteddfod a'r gwersylloedd.

   Sicrhau cynnydd mewn cyfraniadau oddi wrth ymddiriedolaethau.

   Gwneud ceisiadau i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i ganlyniadau Arolwg Bwrdd yr Iaith o waith maes yr Urdd.

Atodiadau

Strwythur Pwyllgorau'r Urdd

Strwythur Staffio'r Urdd

Dadansoddiad SWOT

DADANSODDIAD 'SWOT'

Cryfderau

- profiad 80 mlynedd o ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc
- ewyllys da llawer iawn o bobl yng Nghymru a thu hwnt
- cyfarwyddwyr, staff a gwirfoddolwyr ymroddedig sy'n credu yn egwyddorion a nod y mudiad
- gwirfoddolwyr ifanc creadigol mewn swyddi allweddol (llywyddion, is-lywyddion)
- cynnyrch unigryw (e.e Eisteddfod, Ysgoloriaeth Bryn Terfel, gwersylloedd, chwaraeon iaith Gymraeg)
- cynnig cyfleoedd sy'n cyfoethogi CV person ifanc
- rhwydwaith gyfathrebu electroneg fewnol dda mewn lle

Gwendidau

- adrannau gwahanol yr Urdd cystadlu yn erbyn ei gilydd i raddau am sylw aelodau
- dim gwybodaeth hylaw gyfredol ar aelodau ar gael i staff
- delwedd hen-ffasiwn
- dim digon o ymchwil blaenorol na phresennol i ddeall anghenion y gynulleidfa
- colli aelodau rhwng Bl 6 a Bl 7
- diffyg ystadegau am y niferoedd sy'n cymryd rhan, a pha mor gyson maent yn cymryd rhan.

Cyfleoedd

- sefydlu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ar lefel sirol – Plant a Phobl Ifanc yn flaenoriaeth gan y Cynulliad.
- agoriad Canolfan y Mileniwm
- pwyslais cynyddol ar fyw yn iach ac osgoi gor-dewdra mewn plant a phobl ifanc
- datblygiadau band-eang, buddsoddiad cenedlaethol mewn TGCh
- y Bac Cymreig – cyfle i ddefnyddio gwaith gwirfoddol yn y gymuned ar gyfer cymhwyster cydnabyddedig
- defnydd amser hamdden – teuluoedd yn chwilio'n barhaol am weithgareddau amrywiol a difyr i blant yn y gwyliau

Bygythiadau

- cyllid ac adnoddau prin; mwy o gystadleuaeth am yr un adnoddau
- cyllidwyr yn gofyn am fwy a mwy o dystiolaeth gwerth am arian, biwrocratiaeth cynyddol
- effaith y cytundeb baich gwaith athrawon ar weithgareddau all-gyrsiol
- mwy o bethau'n cystadlu i ddenu sylw plant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden
- pwyslais cynyddol ar arholiadau allanol 16+
- pryder cynyddol rhieni am ddiogelwch plant